**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**3ydd Chwefror 2014**

# ADBORTH Y COMISIYNYDD AR ADRODDIAD MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Adrodd ynghylch yr adborth a ddaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2012-13.

## Y Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl ar ei Gynllun Iaith Gymraeg – yr hyn a gyflwynwyd o'r blaen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ond sydd bellach yn cael ei reoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Adroddiad Monitro yn rhoi manylion ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyrraedd y targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth 2010-13. Cymeradwywyd yr adroddiad gan Aelodau'r Panel Gweithredol yn y cyfarfod fis Medi diwethaf, ac ers hynny mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn adborth ffurfiol ar adroddiad eleni ac wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y Comisiynydd i fynd drwy'r adborth yn fanwl.

## Gwybodaeth

3 Roedd y Comisiynydd yn croesawu sawl agwedd ar ein gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg, ynghyd â'r cynnydd cyffredinol a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Iaith yn ystod 2012-13.

4 O ran archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, roedd y Comisiynydd yn cydnabod ein gwaith yn rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r ffaith fod archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny er mwyn cynnal y ffigurau a gafwyd o ganlyniad i ymgyrchoedd blaenorol i godi ymwybyddiaeth.

5 Roedd y Comisiynydd yn croesawu'r ffaith ein bod wedi datblygu ein darpariaeth hyfforddiant drwy gynhyrchu CD Lefel 3 i wella sgiliau'r staff ymhellach, ac yn cydnabod y ffaith fod cynnydd yn nifer y staff sy'n cael eu hyfforddi i lefelau uwch o sgiliau Cymraeg.

6 Hefyd, roedd y Comisiynydd yn croesawu'r ffaith ein bod wrthi'n cwblhau modiwl e-ddysgu ar gyfer darparu Ymwybyddiaeth Iaith, a'n bod yn awyddus i gyfieithu modiwlau hyfforddiant eraill sydd ar gael i'r staff ar y system Learn Pro.

7 Roedd y Comisiynydd yn nodi ein bod wedi cael cynnydd parhaus yn nghanran y swyddi sydd â'r Gymraeg yn 'hanfodol' a'r Gymraeg yn 'ddymunol' ac sydd wedi eu llenwi gan unigolion sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol, ynghyd â'n hawydd i dargedu'r aelodau hynny o'r staff sydd heb eto gyrraedd y lefel angenrheidiol i gyflawni gofynion ieithyddol eu swydd.

8 O ran hyrwyddo, ymwybyddiaeth a sgiliau Cymraeg, croesawyd y ffaith ein bod, ar adeg cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol, wedi cael ein henwebu ar gyfer gwobr Ysbrydoli Cymru yn y categori Cymraeg yn y Gweithle, a llongyfarchwyd ni wedi hynny am ein llwyddiant yn mynd ymlaen i ennill y wobr hon.

9 Gofynnodd y Comisiynydd am ragor o wybodaeth am nifer o agweddau penodol ar ein gwaith ym maes y Gymraeg – darparwyd hyn yn fanwl er boddhad y Comisiynydd.

10 Yn 2011 cyflwynwyd Mesur y Gymraeg, a dyma sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol yn ei le er mwyn cyflwyno dyletswyddau i sefydliadau gydymffurfio â Safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Disgwylir i'r safonau hyn gael eu cyflwyno'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn i ddod, ac mae'r Gwasanaeth eisoes yn gweithio tuag at ateb gofynion y gyfres gyntaf o safonau a gynigiwyd yn ddiweddar, ac mae'n gwneud hynny drwy gydweithio â'r ddau

wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru. Fel hyn, ein gobaith yw bod yn gwbl barod i gwrdd â'r safonau pan fyddant yn derfynol. Mae ein Cynllun Iaith presennol, sef 2010-13, yn ymestyn hyd nes y bydd y safonau newydd yn dod i rym.

**Argymhelliad**

11 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag ymrwymiad y Gwasanaeth i sicrhau ein bod yn parhau i fonitro'r cynnydd yn y maes hwn.